

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Paragraff 6. (See end of Document for details)

ATODLEN 1

ADOLYGIADAU CYCHWYNNOL O DREFNIADAU ETHOLIADOL ETC.

Y weithdrefn ragadolygu

- 6 (1) Cyn cynnal adolygiad cychwynnol, rhaid i'r Comisiwn gymryd y camau y mae'n ystyried eu bod yn briodol—
- er mwyn gwneud yr ymgynghoriadau gorfodol, ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn debygol bod ganddynt fuddiant yn yr adolygiad, yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd i gynnal yr adolygiad ac unrhyw gyfarwyddydau eraill a roddir gan Weinidogion Cymru sy'n berthnasol i'r adolygiad, a
 - i ymgynghori â'r ymgynghoriadau gorfodol ar y weithdrefn a'r fethodoleg a fwriedir ganddo ar gyfer yr adolygiad cychwynnol ac, yn benodol, ar sut y mae'n bwriadu penderfynu ar nifer priodol y cynghorwyr ar gyfer y prif gyngor yn yr ardal sy'n cael ei hadolygu.
- (2) Yn yr Atodlen hon, ystyr “yr ymgynghoriadau gorfodol” yw—
- yn achos adolygiad cychwynnol a gynhelir yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 11, prif gyngor yr ardal sy'n cael ei hadolygu;
 - yn achos adolygiad cychwynnol a gynhelir yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 138, y cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro;
 - y cynghorau ar gyfer y cymunedau presennol (os oes rhai) yn yr ardal sy'n cael ei hadolygu;
 - unrhyw bersonau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru mewn cyfarwyddyd i gynnal adolygiad cychwynnol.

Gwybodaeth Cychwyn

- I1** Atod. 1 para. 6(1)(2)(c)(d) mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**
- I2** Atod. 1 para. 6(2)(b) mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)(2)(b)(ii)**
- I3** Atod. 1 para. 6(2)(a) mewn grym ar 6.5.2022, gweler **a. 175(2)(k)(iii)(6)(b)**
- I4** Atod. 1 para. 6(2)(b) mewn grym ar 1.4.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan **O.S. 2021/297, ergl. 2(g)**

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Paragraff 6.